

Sul y Beibl

Darllen: Rhufeiniaid 8:28

Cawn ein cymell i ddarllen pennod 38 o Lyfr Job. Darllenwch hi eich hun i ddechrau, ac yna darllenwch hi ar goedd. Yn ôl un ysgolhaig, yn yr adran hon y ceir y disgrifiad gorau a gaed yn unman erioed o ryfeddodau'r cread ac o fawredd y Creawdwr.

Yn y bennod hon, mae Duw'n ateb Job. Gan Dduw y mae'r gair olaf bob amser. Prif bwrpas Duw yma yw argyhoeddi Job bod ei wybodaeth yn gyfyng iawn. Trwy gyfres o gwestiynau mae'n ei herio i ddangos ei wybodaeth, 'Ble'r oedditi ti pan osodais i sylfaen i'r ddaear?' (Job 38:4) a 'Ble'r oedditi ti pan oedd sêr y bore i gyd yn llawenhau?' (38:7). Mae'r atebion y tu hwnt i bob creadur gan nad yw dirgelwch y Creu wedi ei ddatguddio'n llawn. Dyma'r thema gyntaf felly: dirgelwch creu'r bydysawd. Mae Duw'n mynd rhagddo i ddarlunio'r weithred o greu yn nhermau codi adeilad. Dechreuir gyda'r cynllunio a'r mesur, ac yna gosod y sylfeini a'r conglaen. Disgrifir tarddiad y môr yn nhermau genedigaeth, 'pan gaewyd ar y môr ... pan lamai allan o'r groth' (38:8). Fel y rhwymir baban mewn cadachau, felly hefyd y rhwymwyd y môr mewn cymylau. Y neges amlwg yw bod Duw wedi cael goruchafiaeth dros ymchwydd y môr, 'Hyd yma yr ei, a dim pellach, ac yma y gosodais derfyn i ymchwydd dy donnau' (38:11). Hyd yma, mae Duw wedi canolbwyntio ar rannau o'r bydysawd a oedd y tu hwnt i gyrraedd y dyn meidrol. Ond daw yn awr at y cread sy'n nes ato (38:25–30). 'Pwy,' meddai Duw, 'a wnaeth sianel i'r cennlif glaw, a llwybr i'r daranfoltt ... i ddigoni'r tir diffaith ac anial, a pheri i laswellt dyfu yno?' (38:25, 27). Tybed ydi Job yn cael ei geryddu am ei anwybodaeth ac am ei agwedd meddwl gul a chyfyng?

Yn adran olaf y bennod, ac ymlaen i bennod 39, mae Duw'n cyfeiro at anifeiliaid ac adar y greadigaeth, yn cynnwys y llew, y frân, y geifr gwyllt a'r ewigod, yr asyn gwyllt a'r ych gwyllt, yr estrys a'r garan a'r ceffyl. Yn sicr, nid Job a roddodd i'r ceffyl ei nerth a'i allu i weryru nes creu dychryn.

Duw sy'n gofalu amdanynt i gyd. Ai Job sy'n gyfrifol am fudo'r hebog a 'lledu ei adenydd tua'r De' (Job 39: 26)? Ym mhennod 40, mae Duw'n gofyn am ymateb Job. Gall ddewis ymateb i holl gwestiynau'r Hollalluog neu fod yn dawel. Mae Job yn teimlo'n ostyngedig gerbron Duw, ac ni all ei ateb o gwbl. Yn wyneb hyn, mae Duw'n mynd ymlaen i ofyn cwestiynau pellach iddo. Rhydd gyfle i Job geisio llywio'r cread, ond nid oes ganddo na'r nerth na'r gallu i wneud hynny. Dangosir iddo nad oes gobaith iddo drefnu bywydau dynion na chwaith drefnu byd natur o gofio mai dyma oedd yn ddiffygiol yn y drefn fel y darluniodd Job hi. Dyma ddod â ni'n awr at uchafbwynt areithiau Duw. Wrth ymddwyn fel Duw, tuedd dyn yw gor-bwysleisio'r elfen ddrwg a mynd ati i ddinistrio a difetha. Ond Duw ei hun yn unig a all ddinistrio mewn ffordd greadigol gan ddefnyddio drygioni a dioddefaint i'w bwrpas ei hun. Ac fel y dywed Paul yn ei lythyr at y Rhufeiniaid, 'Gwyddom fod Duw, ym mhob peth, yn gweithio er daioni gyda'r rhai sy'n ei garu, y rhai sydd wedi eu galw yn ôl ei fwriad' (Rhufeiniaid 8:28).

Onid ydi'r adran hon o Lyfr Job yn ein dyrchafu?

Myfyrdod pellach:

Pe byddech chi yn Dduw, beth fyddech chi'n ei wneud?

Oes yna neges gyfoes yn y penodau hyn o Lyfr Job?